## Mwy o bren, a hynny'n fwy cyflym: Treialon ymchwil

Mae'r galw am fiomas coediog yn cynyddu'n gyflym ar lefel leol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac mae hyn yn cael ei yrru gan bolisïau'r llywodraeth sy'n hyrwyddo ac yn cymell defnyddio tanwydd adnewyddadwy i helpu cwrdd â thargedau lleihau allyriadau carbon deuocsid.

Oddi mewn i'r sector coedwigaeth, mae'r galw hwn wedi creu marchnad newydd ar gyfer pren gwastraff, gweddillion pren, coed gwan, coed crwn bach a logiau gradd isel, gan godi gwerth y nwyddau hyn i lefelau digynsail a chynyddu lefel y gystadleuaeth â defnyddwyr coed a ffibr pren mwy traddodiadol.

Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o fiomas coediog yn deillio o goedwigaeth a diwydiannau cysylltiedig a phrif amcan y rhain yw cynhyrchu cynhyrchion pren. Ychydig iawn o'r hyn sydd wedi'i dyfu sydd wedi'i dargedu'n benodol at gynhyrchu biomas.



Mae coedwigaeth cylchdro byr (*SRF*) yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn trwy fod yn system benodol ar gyfer cynhyrchu biomas, gan ddefnyddio rhywogaethau a dulliau sy'n hyrwyddo cynnyrch biomas cynaliadwy, a hynny o fewn ffrâm amser cymharol fyr. Nid yw'r system wedi cael ei phrofi yng Nghymru o'r blaen, er bod treialon SRF canmoliaethus yn Lloegr a'r Alban gafodd eu plannu rhwng 2010-12.

Mae prosiect ymchwil, sy'n gweithio mewn partneriaeth â *Forest Research*, wedi creu 3 threial er mwyn profi effeithiolrwydd *SRF* mewn cyd-destun Cymreig ar safleoedd o fathau gwahanol ond cynrychiadol serch hynny, gan arddangos arfer gorau ac archwilio perfformiad cymharol a chynnyrch biomas ystod o goed brodorol ynghyd â rhai anfrodorol. Sefydlwyd y tri safle ymchwil yn fforestydd Aberhonddu, Maesyfed a Dyfi yn 2013 ac maen nhw'n cynnwys 6 rhywogaeth wahanol: un ar ddeg o goed llydanddail a phump o goed conwydd.

O'r cychwyn cyntaf, bu'n bwysig ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector biomas er mwyn sicrhau bod y treialon yn diwallu eu hanghenion, o ran darparu data ac addasrwydd rhywogaethau.

Mae'r treialon bellach wedi'u hen sefydlu ac maen nhw'n dechrau rhoi bod i ganlyniadau diddorol ac addysgiadol. Mae'r tri safle hefyd wedi cyrraedd y fan lle maen nhw'n cynnig adnodd addysgol gwerthfawr i ymarferwyr, ymchwilwyr a llunwyr polisi. Mae'r safleoedd eisoes wedi gweld nifer o ymweliadau a threfnir mwy ohonynt yn y dyfodol, gan gynnwys un gan y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol.

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: